CADW'N DDIOGEL

CYNLLUN DIOGELWCH PLANT

TELERAU AC AMODAU

28 Ionawr 2008

wrexham
COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Sefydlwyd Cadw'n Ddiogel i ddarparu offer diogelu i deuluoedd plant ifanc sy'n derbyn incwm isel.

Sylwch:-
Cynllun dewisol yw Cadw'n Ddiogel. Caiff holl offer ei ddarparu a'i osod yn ddi-dâl ac yna daw'n gyfrifoldeb y derbynnydd a enwyd i sicrhau bod yr offer yn cael ei gadw mewn cyflwr da ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr.

Telerau ac Amodau

1. Mae'r cynllun yn agored yn unig i deuluoedd gydag o leiaf un plentyn rhwng 8 mis a 24 mis oed.

2. I fod yn gymwys, rhaid i deuluoedd fod yn derbyn budd-daliadau cysylltiedig ag incwm isel (fel y manylwyd) a rhoi tystiolaeth o hyn ar adeg cyfeirio, e.e. llythyr dyfarnu.

3. Bydd yr offer diogelwch yn y cartref yn cael ei osod gan staff a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam neu Wasanaeth Tân Gogledd Cymru, fel y bo'n briodol.

4. Caiff yr offer ei ddarparu a'i osod yn ddi-dâl.

5. Bydd y derbynnydd a enwyd yn aros yn gyfrifol am ddefnyddio'r offer diogelu'n ddiogel a'i reoli yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

6. Daw'r offer yn gyfrifoldeb y ceisydd yn union ar ôl ei osod.

7. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cadarnhau amser a dyddiad ffitio / gosod yr offer. Os oes angen gwiriadau Diogelwch y Cartref a Diogelwch rhag Tân, bydd Swyddogion yn cysylltu â'r teulu i wneud y trefniadau angenrheidiol.

8. 'Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddifrod, anaf neu golled o unrhyw fath neu ddisgrifiad yn deillio o gyflenwi, neu ddefnyddio, offer a ddarparwyd dan y Cynllun Cadw'n Ddiogel'.

9. Bydd y gosodwr yn ceisio cael mynediad i'r tŷ. Os yw'n methu gwneud hynny, bydd cerdyn ymweld yn cael ei adael gan ddisgwyl i'r rhiant / gwarcheidwad gysylltu â'r gosodwyr i wneud trefniant. **Bydd peidio â chysylltu o fewn 14 diwrnod yn golygu na fydd y gwaith yn cael ei wneud.**

*I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â ***Victoria Jones ar 01978 315451***

‘Deuddeg o Syniadau Pwysig ar Ddiogelwch yn y Cartref’

1. Bydd plant ifanc yn rhoi pethau yn eu cegau a gallant dagu. Peidiwch â gadael pethau bach o gwmpas, e.e. caeadau poteli, caeadau beiros, botymau ac ati.

2. Cadwch lanhawyr fel cannydd neu sebon golchi llestri mewn cwpwrdd uchel neu dan glo. Gall yfed y rhain ar ddamwain fod yn farwol neu arwain at broblemau iechyd hirdymor.

3. Mae ffenestri agored yn gweithredu fel magnet i blant bach busneslyd. Cofiwch weld bod ffenestri wedi’u cau’n ddiogel ac nad yw plant yn gallu dringo at y ffenestr trwy symud cadeiriau ac ati.

4. Wrth goginio, cofiwch droi coesau sosbenni at gefn y cwcer.

5. Cofiwch gadw cyllyll, fforchau neu unrhyw eitemau miniog o’r golwg. Peidiwch â defnyddio tymbleri gwydr – defnyddiwch rai plastig yn hytrach.

6. Gall teganau sydd wedi torri neu gracio fod ag ymylon miniog a dylech gael gwared arnynt yn ddiogel.

7. Mae dal bysedd yn boenus dros ben. Dywedwch wrth bawb am edrych cyn cau drws. Mae hyn yn cynnwys drysau ceir.

8. Gallwch osod yr adwy ddiogelwch mewn mannau lle dangosodd ymchwil y bydd plant yn y perygl mwyaf o ddamwain. Barnwch eich hun ymhle i’w osod.

9. Os oes gennych gi, cofiwch y gall droi ar blant bach, waeth ba mor addfwyn a ffyddlon yw’r ci fel arfer. Peidiwch fyth â gadael ci a phlentyn bach ar eu pennau’u hunain yn yr un ystafell.

10. Mae’n beryglus arbennig a hefyd yn drosedd i gario plant diatal mewn car. Gan ddibynnu ar eu hoed a’u maint, dylid diogelu plant naill ai gyda seddau gosod neu wregysau diogelwch priodol.

11. Peidiwch â gadael i blant bach chwarae gyda matsis.

12. Byddwch yn arbennig o ofalus wrth facio cerbydau. Gallai plentyn bach fod yn chwarae gerllaw.

FFURFLEN GYFEIRIO

Dyddiad Cyfeirio:		
Gorffennwyd cyfeirio: *(ticiwch)*	Yn y cartref	
	Yn y clinig	

Enw'r Plentyn:	
Dyddiad Geni'r Plentyn:	
Enw'r Rhieni / Gwarcheidwaid:	
Cyfeiriad:	
Cod Post:	
Rhif Ffôn Cyswllt:	

Dangoswch pa un o'r canlynol yw'r eiddo:
(ticiwch)

Tŷ Cyngor		**Cymdeithas Dai**	(Rhowch enw)	**Preifat**		**Ar Osod yn Breifat**	

*Os ar osod yn breifat, **rhaid cael caniatâd y Landlord** i osod yr adwyau a'r sgrin dân.

Enw'r Landlord: **Rhif Ffôn:**

Cyfeiriad y Landlord:

Rhif Yswiriant Gwladol (gwelwch hysbysiad dyfarnu)	

<u>DATGANIAD</u> – darllenwch y datganiad hwn neu gael rywun i'w ddarllen i chi cyn i chi ei lofnodi a'i ddyddio:
Rwy'n deall y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth a roddais i brosesu'r cais hwn. Cewch gadarnhau'r wybodaeth hon gyda ffynonellau eraill o fewn y Cyngor neu Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru. Cewch hefyd drosglwyddo gwybodaeth i sefydliadau eraill y llywodraeth, os yw'r gyfraith yn caniatáu. Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddais yn gywir a chyflawn.

Llofnod y Rhiant / Gwarcheidwad:	**Dyddiad:**

Ymwelydd Iechyd i gwblhau:

Rwyf wedi gweld tystiolaeth o un neu fwy o'r budd-daliadau canlynol:
☐ Llyfr Talebau Cymhorthdal Incwm Cyfredol
☐ Credyd Treth Teulu
☐ Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
☐ Budd-dal Trethi (Treth y Cyngor)

(Rhaid i chi nodi)

Ymwelydd Iechyd **(Printiwch yr enw)** **Canolfan Iechyd** Cyfeiriad a Rhif Ffôn	**Llofnod**

Ticiwch Eich Dewis Gorau:

Adwyau Diogelwch (2 ar y mwyaf – y gosodwr i benderfynu ble i'w gosod)		**Gwirio Diogelwch rhag Tân** gan y Gwasanaeth Tân	
		Synhwyrydd Mwg **(os oes angen)**	
Sgrin Dân		**Pecyn Diogelu'r Cartref**	

Anfonwch y ffurflen hon at:

Victoria Jones
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gwasanaethau Tai
Ffordd Rhuthun
Wrecsam
LL13 7TU

01978 315451

victoriajones@wrecsam.gov.uk

Canllawiau Ymarferwyr

A oes gan y teulu hwn hawl i offer di-dâl dan y Cynllun Cadw'n Ddiogel?

Oes:

os yw'r plentyn rhwng 8 a 24 mis oed

AC

os yw'r teulu'n derbyn un neu fwy o'r budd-daliadau canlynol:

- **Cymhorthdal Incwm**
- **Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm**
- **Credyd Treth Plant –** gydag incwm teulu o £14,495 neu lai yn 07/08
- **Budd-dal Trethi**

*** Os mai taid neu naid yw gwarcheidwad y plentyn, yna byddai Credyd Pensiwn Gwarantedig yn dderbyniol**

Nid yw unrhyw gategori arall o fudd-dal neu incwm arall yn gymwys.

1. Dylid cyfeirio plant o gwmpas y cadarnhad datblygiad 8 mis.

2. **Rhaid i'r plentyn fod dan 24 mis oed**.

3. **Rhaid i ymarferwyr lofnodi** i ddweud eu bod wedi gweld tystiolaeth o fudd-dal priodol a rhaid rhoi'r Rhif Yswiriant Gwladol.

4. Rhaid i rieni / gwarcheidwaid lofnodi yn unol â'r **Datganiad (t3)**.

5. O dderbyn y ffurflen gyfeirio, bydd y gosodwr yn ceisio cael mynediad i'r tŷ. Os yw'n methu gwneud hynny, bydd cerdyn ymweld yn cael ei adael gan ddisgwyl i'r rhiant gysylltu â'r gosodwyr i wneud trefniant. **Cofiwch bwysleisio wrth rieni na fydd y gwaith yn cael ei wneud os na fyddant yn cysylltu o fewn 14 diwrnod.**

    - **Ni fydd offer yn cael ei glustnodi cyn derbyn ffurflen wedi'i llenwi oddi wrth yr ymwelydd iechyd.**

Sylwch:
*** Nid yw cyfeirebau i gael eu derbyn dros y ffôn a rhaid cofnodi holl wybodaeth ar gerdyn cofnodion y rhiant / gwarcheidwad.**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: **Victoria Jones ar (01978) 315451**